O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 699 (Cy. 95)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36a, Brychdyn, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *2 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *13 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mawrth 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36a, Brychdyn, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 13 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55

yng Nghyffordd 36a (Brychdyn) yn Sir y Fflint sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth unrhyw feic, na pheri i unrhyw feic gael ei farchogaeth, ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1.

7. Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y'i dangosir.

8. Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Mawrth 2012

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwaharddiad dros dro ar gerbydau, beicwyr a cherddwyr

Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyfforddd 36a (Brychdyn).

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr hyd at bwynt lle mae slipffordd ymadael Cyffordd 36a yn mynd dros brif gerbytffordd y gefnffordd.